



23 Hydref 2023

Annwyl Brif Weithredwr,

Adroddiad Sicrwydd 2022 - 2023: Codi'r Bar

Dyma ddolen at fy adroddiad sicrwydd cyntaf fel Comisiynydd y Gymraeg – [Codi'r Bar: Adroddiad Sicrwydd 2022-23 \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#).

Mae'r adroddiad sicrwydd yn rhannu canfyddiadau ar sut mae sefydliadau'n gweithredu eu dyletswyddau iaith. Pwrpas yr adroddiad yw tynnu sylw at arferion llwyddiannus a manau ble mae modd gwella - gan dynnu sylw yn arbennig at broblemau cyffredin neu faterion o bwysigrwydd strategol. Mae'r adroddiad yma yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth gyda dyletswyddau gwasanaethau, hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ac asesu sgiliau Cymraeg swyddi wrth hysbysebu.

Fy mhrif ganfyddiadau yn yr adroddiad yw bod gwasanaethau ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg yn helaeth, er hynny nid oes cynnydd mewn gwasanaethau llafar ac mae'r ddarpariaeth islaw'r hyn ddylai fod. Mae defnyddwyr yn adrodd i ni taw gwasanaethau llafar (megis gwasanaethau ffôn a wyneb yn wyneb) y maent yn fwy tebygol o'u defnyddio. Mae'n allweddol felly bod cyrff yn mynd ati o ddifri i wella gwasanaethau sy'n ddibynnol ar gael staff sydd â sgiliau Cymraeg yn y manau cywir i ymateb i'r galw.

Mae'r strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi bod Gweinidogion Cymru '*am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, a bod pobl yn cymryd camau rhagweithiol i gynnig cynnyrch a gwasanaethau yn Gymraeg*'. Mae Gweinidogion Cymru wedi creu corff o safonau sy'n canolbwyntio ar hybu defnyddio'r Gymraeg yng nghydestun gwasanaethau er mwyn i sefydliadau sydd o dan ddyletswyddau safonau gyfrannu at y nod polisi hwn. Mae angen i sefydliadau fynd i'r afael o ddifri â'r cyfrifoldeb o

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

hyrwyddo gwasanaethau er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Does dim arwydd bod hynny'n digwydd mewn ffordd gyfannol ar hyn o bryd.

Mae twf mewn addysg Gymraeg yn hanfodol o ran cynyddu nifer o siaradwyr Cymraeg ond mae angen sicrhau hefyd bod cyfleoedd i'n pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn y byd gwaith wedi hynny. Mae gan gyrff cyhoeddus Cymru gyfle i ddatblygu gweithle ble mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn naturiol ac yn helaeth bob dydd. Dylai sefydliadau osod nod clir er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu sefydliadau drwy weithredu ar bolisiau sy'n cynyddu cyfleoedd i bobl defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Rwyf yn cydnabod bod yna anawsterau cyffredinol wrth recriwtio ar hyn o bryd. Serch hynny, nid yw problemau cyffredinol wrth recriwtio yn sail i ymylu dyletswyddau iaith. Mae'n rhaid i gyrff roi ymdrech gydwybodol i ymateb i'r heriau recriwtio sy'n bodoli trwy gael gwell trefniadau mewn lle ar gyfer recriwtio a dethol gweithlu dwyieithog medrus sydd yn diwallu anghenion defnyddwyr y Gymraeg.

Mae croeso i chi gysylltu â ni trwy eich swyddog cyswllt os hoffech drafod cynnwys yr adroddiad.

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

23 October 2023

Dear Chief Executive,

Adroddiad Sicrwydd 2022 - 2023: Codi'r Bar

Here is a link to my first assurance report as Welsh language commissioner – [Raising the Bar: Assurance Report 2022-23 \(welshlanguagecommissioner.wales\)](https://welshlanguagecommissioner.wales)

The assurance report shares my findings on the performance of public sector organisations with their language duties. The purpose of the report is to draw attention to good practice and to areas that need to be improved – focusing in particular on common problems or matters of strategic importance. This report discusses compliance with service duties, promoting and facilitating use of the Welsh language and assessing the Welsh language skills for posts during recruitment.

My main findings outlined in the report are that written services are often available, however there has been little improvement with relation to oral services and the provision is below par. Unfortunately, users report to us that is services such as telephone services and face to face services that they are more likely to use. It is crucial therefore that organisations focus on improving services that rely on having staff with Welsh language skills in the right areas to respond to that demand.

The Welsh Governments' Cymraeg 2050 strategy wants to see '*the use of the Welsh language as a natural part of everyday life, so that speakers at all levels can feel confident to speak Welsh in both formal and informal situations, and that people can take proactive steps to offer products and services in Welsh*'. The Welsh Ministers have created a set of standards that focus on promoting use of the Welsh language in the context of services so that organisations who are subject to these standards can contribute to this aim.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Organisations need to give determined effort to the responsibility of promoting services to increase use of the Welsh language. There is no sign that this currently happening currently in a holistic way.

Growth in Welsh education is essential with regards to increasing the number of Welsh speakers; however we need to also ensure that there are opportunities for our young people to use their Welsh in the world of work after education. Welsh public sector organisations have an opportunity to develop a workplace where Welsh is used naturally and often every day. Organisations should set a clear aim to increase the amount of Welsh used within their organisations and implement policies that increase the opportunities for people to use Welsh in their work.

I acknowledge that there are currently general difficulties with recruitment. However, these general issues are not a reason to sideline language duties. Organisations must make a conscious effort to respond to the recruitment challenges that exist by developing better practices that can find a skilled and able bilingual workforce which will meet the needs of Welsh language users.

You are welcome to contact us through your contact officer to discuss the contents of the report.

Yours sincerely,

Efa Gruffudd Jones
Welsh Language Commissioner